**ADRAN A**


1. Pa un o'r rhifau canlynol sydd **ddim** yn wahaniaeth rhwng dau o'r lleill?

   a) 1 b) 7 c) 6 ch) 5 d) 2

2. Faint yw'r gwahaniaeth rhwng 10% o un miliwn a 10% o un mil?

   a) 9 900 b) 9 990 c) 90 900 ch) 99 900 d) 999 900

3. Mae'r llun yn dangos chwe chownter mewn patrwm arbennig. Faint yw'r nifer lleiaf o gownteri sydd angen eu symud i droi'r patrwm â'i ben i lawr?



   a) 1 b) 2 c) 3 ch) 4 d) 5

4. Wrth gyfrif o 1 i 100, sawl gwaith y byddwch yn dweud y gair 'saith'?

   a) 10 b) 11 c) 19 ch) 20 d) 21

5. *Sudoku* bach

   Mae pob rhes a cholofn yn cynnwys y rhifau 1, 2, 3 a 4. Felly hefyd y pedwar bocs 2x2.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 3 | |
| | | 2 | 4 |
| 3 | 1 | | |
| 2 | | | A |

   Faint yw'r rhif A?

   a) 1 b) 2 c) 3 ch) 4 d) 5

6. Mae archfarchnad yn hysbysebu ‘Prynwch un, cewch un am hanner pris’. Pa un o’r canlynol sy’n rhoi yr un cost cyfartalog yr eitem:

a) dau am bris un  b) tri am bris un  c) tri am bris dau
ch) pedwar am bris tri  d) pump am bris pedwar

7. Mae gan sgwâr yr un perimedr â phetryal sy’n mesur 6 cm wrth 4 cm. Faint yw arwynebedd y sgwâr mewn centimetrau sgwâr?

a) 9  b) 16  c) 20  ch) 25  d) 36

8. Mewn cae o ddefaid, gwartheg a cheffylau:

- mae pob un o’r anfeiliiaid ond 6 yn ddefaid
- mae pob un o’r anfeiliiaid ond 7 yn wartheg
- mae pob un o’r anfeiliiaid ond 9 yn geffylau


Sawl ceffyl sydd yn y cae?

a) 2  b) 4  c) 6  ch) 8  d) 9

9. Mae afon yn 50m o led. Mae pont yn croesi’r afon, ac mae chwarter o’r bont ar y glannau Gogleddol ac wythfed ohoni ar y glannau Deheuol. Faint, mewn metrau, yw hyd y bont?

a) 62  b) 68¾  c) 80  ch) 82  d) 87½

10. Mae’r llun yn dangos grid weiren petryalog sy’n ffurfio 6 sgwâr. Hyd y grid yw x. Faint yw cyfanswm hyd y weiren sydd ei angen i wneud y grid?




a) 13x/3  b) 9x/2  c) 5x  ch) 17x/3  d) 7x


11. Beth yw’r lluoswm mwyaf posib a geir wrth luosi dau rif dau ddigid gan ddefnyddio unrhyw ddigidau rhwng 0 a 9 unwaith yn unig?

a) 98 x 76  b) 97 x 86  c) 96 x 87  ch) 99 x 88  d) 98 x 70

**ADRAN B**

1. Mae gan Jac goed yn ei ardd gefn. Mae eisiau cysylltu tair coeden gyda ffens i wneud cae trionglog ar gyfer cadw ŵyn llywaeth.


Os oes tair coeden yng ngardd Jac yna dim ond un ffordd y gellir gwneud cae trionglog.




Sawl cae trionglog sydd yn bosib os oes 4 coeden yn yr ardd?

Ateb ____________________

Dangoswch y posibiliadau isod.



Beth os oes 5 coeden? Dangoswch y posibiliadau ar y daflen nesaf.



Faint yw nifer y posibiliadau?   Ateb ________________________

Awgrymwch sut y byddai modd i ddatblygu’r ymchwiliad ymhellach:

2. Mae Bethan yn sylwi ei bod yn gallu defnyddio stwmp 5 cannwyll i wneud un newydd. Gan gychwyn gyda 5 cannwyll gyfan mae hi felly yn gallu cael gwerth 6 channwyll i gyd.

Cwblhewch y tabl hwn:

| Nifer y canhwyllau cyfan ar y cychwyn | Cyfanswm gwerth y canhwyllau | Defnyddiwch y golofn hon ar gyfer unrhyw nodiadau |
|---|---|---|
| 1 | 1 | |
| 2 | 2 | |
| 3 | 3 | |
| 4 | 4 | |
| 5 | 6 | |
| 6 | | |
| 7 | | |
| 8 | | |
| 9 | | |
| 10 | | |
| 11 | | |
| 12 | | |
| 13 | | |
| 14 | | |
| 15 | | |
| 16 | | |
| 17 | | |
| 18 | | |
| 19 | | |
| 20 | | |
| 21 | | |
| 22 | | |
| 23 | | |
| 24 | | |
| 25 | | |
| 26 | | |
| 27 | | |
| 28 | | |
| 29 | | |
| 30 | | |

Disgrifiwch unrhyw batrymau yn eich atebion.